Ymddiriedolaethau Datblygu Treftadaeth

Canllaw i Ymgeiswyr

Y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol
ahfund.org.uk
Mai 2023

Ynglŷn â rhaglen meithrin gallu'r Ymddiriedolaethau Datblygu Treftadaeth

Mae rhaglen meithrin gallu'r Ymddiriedolaethau Datblygu Treftadaeth yn bartneriaeth strategol rhwng y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol (AHF) a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, sy'n darparu adnoddau i elusennau a mentrau cymdeithasol i gael effaith gadarnhaol a pharhaol ar dreftadaeth yn eu hardaloedd. Bydd sefydliadau a ddewisir yn Ymddiriedolaethau Datblygu Treftadaeth yn cael eu cefnogi i ddod yn bartneriaid cyflawni gweithredol mewn mentrau adfywio treftadaeth adeiledig sy'n seiliedig ar le. Mae'n cefnogi amcanion strategaeth 2023-28 y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol a strategaeth lleoedd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol Lleoedd Llewyrchus.

Bydd y rhaglen hon yn darparu cyllid a chymorth meithrin gallu i rhwng 10 a 13 o Ymddiriedolaethau Datblygu Treftadaeth sy'n gweithredu mewn lleoliadau o angen a photensial ledled y DU, a fydd yn ymuno â'r grŵp presennol o saith Ymddiriedolaeth Datblygu Treftadaeth yn Lloegr a gefnogwyd fel rhan o fenter beilot rhwng 2020 a 23.

Beth yw Ymddiriedolaethau Datblygu Treftadaeth?

Nid yw model yr Ymddiriedolaeth Datblygu Treftadaeth, a ddatblygwyd gan y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol, yn strwythur cyfreithiol rhagnodedig - gall sefydliadau fod yn fentrau cymdeithasol neu'n elusennau o wahanol ffurfiau. Yr hyn y mae Ymddiriedolaethau Datblygu Treftadaeth yn ei rannu yw ymrwymiad sy'n uno i ail-ddychmygu, atgyweirio ac ailddefnyddio adeiladau hanesyddol sydd o werth i'w cymuned. Sef:

- **Datblygwyr aml-adeilad**: caffael a rheoli portffolio o asedau treftadaeth, i greu model economaidd gynaliadwy drwy eu potensial i godi refeniw;
- **Partneriaethau cymunedol**: yn deillio o anghenion eu cymuned, ac yn gweithio mewn partneriaeth agos â phobl leol, llywodraeth leol a busnesau lleol; ac
- **Entrepreneuriaid a sefydliadau nid-er-elw**: ail-fuddsoddi eu gwarged mewn datblygiad, a chreu gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ychwanegol i'w cymunedau.

Pwy fydd yn gymwys i wneud cais?

Elusennau neu fentrau cymdeithasol sydd â'r potensial i gyflawni adfywiad a arweinir gan dreftadaeth ac sy'n seiliedig ar le, yn y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt. Mewn amgylchiadau eithriadol, os nad oes sefydliad cymwys yn bodoli mewn lle penodol ar hyn o bryd, ond bod angen ac awydd clir i greu Ymddiriedolaeth Datblygu Treftadaeth, byddwn yn derbyn ceisiadau gan asiantaethau eraill, megis awdurdodau lleol, sydd am sefydlu Ymddiriedaeth newydd, ar yr amod y gellir dangos bod yr Ymddiriedolaeth yn ddigon annibynnol. Gallwn hefyd dderbyn ceisiadau gan ddau neu fwy o sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth.

Dylai fod gan sefydliadau sy'n ymgeisio gynlluniau ar waith i ymgymryd â phortffolio o brosiectau i gyflawni adfywio a arweinir gan dreftadaeth. Rhaid cyfiawnhau'r angen am y grant a rhaid cyflwyno cynnig ariannol amlinellol i gyd-fynd ag ef, sy'n nodi sut y caiff y cyllid ei wario a sut yr ydych yn bwriadu datblygu ffrydiau incwm newydd dros y pum mlynedd nesaf. Dylid darparu tystiolaeth hefyd o gefnogaeth awdurdodau lleol, partneriaid prosiect ac ymgynghoriad cymunedol a chefnogaeth.

Dim ond un rownd o geisiadau sydd ar gyfer y cyllid hwn. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **9am** ar **15 Medi 2023**. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad eu ceisiadau ym mis Rhagfyr 2023.

Fel amod o'r cyllid, bydd disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus rannu gwybodaeth a gwersi a chymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu ehangach ar gyfer y sector treftadaeth yn ei gyfanrwydd.

Beth yw'r meini prawf ar gyfer cymorth?

Caiff ceisiadau eu hasesu yn erbyn y pum maen prawf canlynol:

Maen prawf 1: Elusen neu fenter gymdeithasol gyda chynlluniau ac uchelgeisiau amlwg i gynyddu gweithgaredd o fewn ei maes gweithredu neu ranbarth. Fel arall, awdurdod lleol neu asiantaeth arall gyda'r bwriad o sefydlu Ymddiriedolaeth annibynnol newydd gyda chynlluniau credadwy ar gyfer twf.

Maen prawf 2: Cyfres o brosiectau posibl i'w caffael a'u datblygu fel asedau treftadaeth, a fydd yn gallu cynhyrchu refeniw a fydd yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor y sefydliad.

Maen prawf 3: Awdurdod lleol cefnogol a allai fod yn fodlon cyfrannu adnoddau, megis cyllid, eiddo, cyngor neu bobl a thystiolaeth o'r potensial ar gyfer partneriaethau gyda rhanddeiliaid eraill yn y sector cyhoeddus neu breifat, megis y Siambr Fasnach neu'r Rhanbarth Gwella Busnes.

Maen prawf 4: Tystiolaeth o gefnogaeth gan y gymuned ehangach a phartneriaid trydydd sector eraill lle bo'n berthnasol. Disgwyliwn weld ymagwedd gynhwysol a seiliedig ar le at adfywio.

Maen prawf 5: Hanes amlwg o gyflawni prosiectau (neu os nad oes hanes o lwyddiant gan yr unigolion dan sylw, ei brofiad perthnasol), llywodraethu da, a phrosesau gwneud penderfyniadau cadarn.

Rhoddir pwys ychwanegol ar leoedd a nodir fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer cymorth gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Pa gefnogaeth fydd ar gael?

Bydd y math o gymorth yn amrywio yn dibynnu ar gam datblygu pob Ymddiriedolaeth a'i hanghenion unigol ond, yn gryno:

- Cyllid refeniw o rhwng £55,000 a £70,000 y flwyddyn, am dair blynedd, o Ionawr 2024;
- Mynediad at gymorth gan gynghorwyr prosiect ymgynghorol sy'n arbenigo mewn meysydd fel llywodraethu, mesur effaith gymdeithasol, ymgysylltu â'r gymuned, codi arian a buddsoddiad cymdeithasol, cynllunio busnes, cynaliadwyedd amgylcheddol ac atebion ynni gwyrdd;
- Yn gymwys i wneud cais am Grantiau Hyfywedd Prosiect (hyd at £15,000 fesul prosiect) a Grantiau Datblygu Prosiect (hyd at £75,000) i ddatblygu prosiectau sy'n ymwneud ag achub adeiladau hanesyddol a'u hailddefnyddio;
- Aelodaeth o rwydwaith dysgu rhwng cymheiriaid ledled y DU o Ymddiriedolaethau Datblygu Treftadaeth;
- Mentora gan Ymddiriedolaeth Datblygu Treftadaeth arall.

Beth fydd y cyllid hwn yn eich helpu i'w gyflawni?

Ar ddiwedd y cyfnod ariannu yn ddelfrydol bydd eich sefydliad wedi cwblhau o leiaf un prosiect adfywio adeiladau hanesyddol a bydd ganddo gynllun gweithredu clir ar gyfer caffael mwy o asedau treftadaeth i'w hychwanegu at ei bortffolio. Bydd wedi arallgyfeirio a datblygu ei ffrydiau incwm, wedi meithrin partneriaethau gydag ystod o randdeiliaid lleol a bydd mewn sefyllfa i chwarae rhan allweddol mewn adfywio treftadaeth yn y tymor hir yn ei ardal.

Disgwyliwn weithio'n agos gyda chi i gynnal gwerthusiad trylwyr o lwyddiant y prosiect a byddwn yn trafod sut i gyflawni hyn gyda'r holl ymgeiswyr llwyddiannus ar ddechrau Blwyddyn 1. Bydd perfformiad eich sefydliad wrth gyflawni ei gynigion yn cael ei fonitro drwy gydol y rhaglen a bydd yn destun gwerthusiad terfynol.